Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Wythnos 12 (22ain i 28fed o Fehefin 2020)**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

Mae'r wybodaeth a gesglir gan **500 neu fwy o unigolion a ddewisir ar hap** yn darparu sylfaen y canlyniadau a gyflwynir **ym mhob adroddiad wythnosol.**

Nod yr arolwg yw darparu data sydd yn cynrychioli poblogaeth Cymru ac mae'r data'n cael ei addasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd. Yn ystod rhai wythnosau, mae cwestiynau newydd yn cael eu hychwanegu a'u dileu, yn dibynnu ar y materion sy'n dod i'r amlwg ar yr adeg honno.

Mae adroddiad yr wythnos hon yn cynnwys mesurau cyffredin a welwyd mewn adroddiadau blaenorol. Mae hefyd yn defnyddio data ar draws wythnosau'r arolwg lluosog i edrych ar wahaniaethau demograffig mewn ymatebion ar draws cwestiynau penodol yn cynnwys pryder am ddal coronafeirws, arferion golchi dwylo, ail-agor ysgolion ac effaith ariannol yn sgil y cyfyngiadadau.

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o'u hamser gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith yma.



# Canfyddiadau allweddol o'r wythnos hon

Cafodd 605 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed ac yn hŷn eu cyfweld yn ystod wythnos 12 o'r arolwg (22ain i'r 28ain o Fehefin.)

## 91%

o bobl yn gadael eu cartref am o leiaf un diwrnod yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Un o bob tri person (32%) yn gadael eu cartref i'w gwaith, i fyny o 21% yr wythnos diwethaf.

## 12%

o bobl bob amser neu'n aml wedi bod yn teimlo'n ynysig yn yr wythnos ddiwethaf, i lawr o 22% yr wythnos diwethaf.

## 38%

o bobl yn dweud byddai'n well ganddynt aros o dan gyfyngiadau hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal coronafeirws, i lawr o 47% yr wythnos diwethaf.

## 23%

o bobl yn dweud bod eu sefyllfa ariannol bresennol yn waeth na'r arfer o ganlyniad i gyfyngiadau coronafeirws; Dywedodd 14% ei fod yn well a 63% yn dweud nad oes newid.

## 27%

o bobl yn credu y dylai cyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol eisoes fod wedi dod i ben ar gyfer teulu agos a ffrindiau nad ydynt yn byw gyda'i gilydd, ac mae 43% yn credu y dylai hyn ddigwydd o fewn y 3 wythnos nesaf.

## 46%

o bobl yn gwisgo gorchuddion gwyneb wrth fynd allan; 26% peth o'r amser a 20% y rhan fwyaf o'r amser.

# Canfyddiadau allweddol o'r wythnos hon

Mae dadansoddiadau o wahaniaethau demograffig wedi eu cyfuno o ddata ar draws yr wythnosau perthnasol o'r arolwg.

## Pobl ifanc 18-29 oed yw'r rhai mwyaf tebygol o adrodd bod eu sefyllfa ariannol wedi gwaethygu oherwydd cyfyngiadau coronafeirws

Mae 38% o fobl ifanc 18-29 oed yn dweud eu bod ar eu colled yn ariannol oherwydd cyfyngiadau coronafeirws o gymharu â 12% o bobl 70 + oed.

Nid yw cyfran y bobl a ddywed eu bod yn waeth yn ariannol yn amrywio'n sylweddol ar draws grwpiau amddifadedd.

## Mae merched yn fwy pryderus na dynion am gael coronafeirws ac yn nodi eu bod yn golchi dwylo'n fwy cyson ac yn fwy cefnogol o wneud defnydd o gorchuddion gwyneb

Mae 58% o ferched yn dweud eu bod yn golchi eu dwylo neu'n defnyddio diheintydd dwylo o leiaf 10 gwaith y dydd o'i gymharu â 42% o ddynion.

Mae 57% o ferched yn credu y dylai pobl gael eu gwneud i wisgo gorchuddion gwyneb mewn mannau cyhoeddus o gymharu â 52% o ddynion.

## Mae cyfran y bobl sy'n ffafrio ysgolion i aros ar gau hyd nes nad oes siawns y bydd plant yn dal coronafeirws yn cynyddu gydag amddifadedd

Mae pobl sy'n byw mewn cwintelau mwy cefnog yn poeni llai am blant yn dal coronafeirws mewn ysgolion ac yn mynd yn sâl neu'n lledaenu feirws ymysg teuluoedd neu eu cymunedau.

Nid oes unrhyw wahaniaethau ar draws grwpiau amddifadedd ynghylch pryder datblygiad addysgol neu gymdeithasol ac emosiynol plant.

# Ynglŷn â coronafeirws

**Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws?**

| | |
|---|---|
| Do | 11% |
| Ddim yn gwybod | 9% |

**Pa mor bryderus ydych chi y gallech chi gael coronafeirws?**

Nid yw'n cynnwys y rhai a atebodd "do" i fod wedi cael coronafeirws


| | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 20% |
| Ychydig | 32% |
| Cymedrol | 32% |
| Hynod | 17% |

**Oes rhywun sy'n agos atoch chi fel aelod o'r teulu neu ffrind wedi bod yn ddifrifol wael* gyda coronafeirws?**

| | |
|---|---|
| Do | 12% |

*eu cymryd i'r ysbyty neu a fu farw

# Ymbellhau cymdeithasol





| | Dim | 1 - 2 | 3 - 10 | Mwy na 10 |
|---|---|---|---|---|
| Yn y 7 diwrnod diwethaf, faint o fobl o du allan i'ch aelwyd ydych chi wedi dod i gyswllt agos gyda, yn golygu oddi fewn i 1 metr? | 45% | 26% | 17% | 12% |
| Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o fobl sydd wedi dod fewn i'ch cartref ar wahan i'r bobl sydd yn byw yno? | 73% | 19% | 8% | <1% |
| Yn y 7 diwrnod diwethaf, faint o dai bobl eraill ydych chi wedi bod ynddo? | 76% | 23% | 1% | 1% |

# Diogelwch personol

## Ar hyn o bryd, pan ydych yn mynd allan ydych chi'n gwisgo gorchudd gwyneb…

| | |
|---|---|
| Rhan fwyaf o'r amser | 20% |
| Peth o'r amser | 26% |
| Byth | 47% |
| Ddim yn berthnasol* | 7% |

* ddim yn mynd allan



# How well are we handling coronavirus?

Ydych chi'n meddwl fod y cyfyngiadau mewn lle ar gyfer rheoli'r coronafeirws yn…

- **Rhy fychan** 8%
- **Tua'i le** 78%
- **Yn ormod** 14%

Byddai'n well gennyf aros mewn cyfyngiadau hyd nes nad oes siawns o ddal coronafeirws


- **Cytuno** 38%
- **Anghytuno** 45%
- **Heb benderfynu** 17%

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yng anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru'n ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 22% | 57% | 9% | 10% | 2% |
| Rwyf yn hyderus y byddai GIG yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pe bawn yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 37% | 52% | 6% | 5% | 1% |
| Rwyf yn hyderus y gwnaiff yr heddlu ddefnyddio eu pwerau i gyfyngu ar symudiadau pobl yn synhwyrol | 17% | 57% | 11% | 9% | 6% |

# Camau nesaf yn yr adferiad

## Wrth i'r cyfyngiadau presennol gael eu codi, pa fesurau y credwch y dylid eu rhoi ar waith i amddiffyn pobl?

| | Dylid | Na ddylid | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Dylid gwneud i bobl wisgo gorchuddion gwyneb mewn mannau cyhoeddus | 61% | 26% | 13% |
| Dylai pobl sydd yn gadael eu cartrefi gael eu profi'n reolaidd i weld a yw'r feirws ganddynt | 57% | 29% | 14% |
| Ni ddylai pobl rannu ceir â phobl nad ydynt yn byw gyda hwy | 62% | 28% | 10% |
| Dylai pobl sy'n gweithio mewn siopau wisgo gorchuddion gwyneb neu feisorau | 85% | 10% | 5% |



# Camau nesaf mewn adferiad

## Pryd ydych chi'n meddwl y dylai'r newidiadau canlynol ddigwydd?

| | Dylid fod yn digwydd yn barod | Oddi fewn i'r 3 wythnos nesaf | Mewn mwy na 3 wythnos |
|---|---|---|---|
| Dylai bwytai, tafarndai a bariau ail agor | 6% | 31% | 62% |
| Dylai gweithwyr nad ydynt yn hanfodol allu ddychwelyd nôl i'r gwaith | 30% | 50% | 21% |
| Dylai digwyddiadau mawr fel chwaraeon a chyngherddau allu cymryd lle | 3% | 8% | 90% |
| Dylai pobl allu teithio mor bell ag y mynant yng Nghymru i gwrdd â phobl a defnyddio mannau cyhoeddus ar yr amod eu bod yn cynnal ymbellhau cymdeithasol | 34% | 41% | 25% |
| Dylid terfynu cyfyngiadau ymbellau cymdeithasol ar gyfer teulu agos a ffrindiau nad ydynt yn byw gyda'i gilydd | 27% | 43% | 30% |
| Dylai pobl allu teithio dramor a dychwelyd i Gymru heb orfod mynd i mewn i gwarantîn | 6% | 11% | 83% |
| Dylai apwyntiadau sgrinio am ganser ail-ddechrau (e.e ar gyfer canser ar y fron, y coluddyn a chanser ceg y groth) | 85% | 13% | 2% |

# Camau nesaf mewn adferiad

## Pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl dylai fod yn flaenoriaethau i ail-agor nesaf wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio?


| | Ie |
|---|---|
| Siopau trin gwallt a barbwyr | 64% |
| Clybiau plant ar gyfer chwaraeon, dawns, cymdeithasu ayyb | 51% |
| Caffis a bwytai | 50% |
| Lletyoedd gwyliau | 41% |
| Canolfannau hamdden a champfeydd | 40% |
| Tafarndai a bariau | 34% |

## Pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu hystyried yn dderbyniol?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Defnyddio app tracio Llywodraeth sy'n rhoi rhybuddion i chi os ydych wedi bod yn agos i rywun sydd â coronafeirws | 71% | 18% | 11% |
| Fod pobl sydd yn fwriadol anufuddhau i fesurau ymbellhau cymdeithasol yn derbyn dirwy | 84% | 10% | 6% |
| Fod lefelau lle mae heintiau'n codi ychydig o ganlyniad i gyfyngiadau yn cael ei ddileu | 54% | 33% | 13% |

# Dychwelyd i’r ysgol

Byddai'n well gennyf pebai ysgolion yn aros ar gau hyd nes nad oes gobaith i blant ddal coronafeirws




## Wrth feddwl am blant yn dychwelyd i'r ysgol, pa mor bryderus fyddech chi ynglŷn â'r canlynol?

| | Ddim yn bryderus o gwbl | Ychydig yn bryderus | Yn bryderus iawn | Yn hynod o bryderus |
|---|---|---|---|---|
| Plant yn dal coronafeirws mewn ysgolion a’i ledaenu i’w teuluoedd a’u cymunedau | 11% | 43% | 25% | 21% |
| Plant eu hunain yn mynd yn sâl o fod wedi dal coronaferiws yn yr ysgol | 16% | 41% | 23% | 19% |
| Addysg plant yn cael ei niweidio gan ysgolion sy’n dychwelyd i’r arferol yn rhy araf | 20% | 38% | 26% | 15% |
| Datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant yn cael eu niweidio gan ysgolion sy’n dychwelyd i’r arferol yn rhy araf | 17% | 39% | 25% | 19% |


# Gweithleoedd

## I’w gwneud yn ddiogel i bobl i ddychwelyd i’r gwaith, pa rai o’r mesurau yma a fyddech chi’n eu cefnogi?

| | Ie | Na | Ansicr |
|---|---|---|---|
| Pobl yn gorfod gwisgo gorchuddion wyneb wrth weithio dan do mewn mannau a rennir | 81% | 13% | 6% |
| Ei gwneud yn ofynnol i bobl gael eu tymheredd wedi ei gymeryd yn y gwaith | 90% | 6% | 4% |
| Fod profion ar gyfer y feirws ar gael yn hawdd i unrhyw un sydd yn teimlo’n sâl yn y gwaith | 97% | 2% | 1% |
| Newid oriau gwaith pobl i leihau nifer y bobl sy'n gweithio ar unrhyw un adeg (e.e. gweithio mewn shifftiau) | 85% | 7% | 8% |

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn y 7 diwrnod diwethaf, ar sawl diwrnod ydych chi wedi gadael eich cartref?




## Yn y 7 diwrnod diwethaf, ar sawl diwrnod ydych chi wedi gadael eich cartref…

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 68% | 5% | 9% | 17% |
| …i siopa | 32% | 55% | 9% | 5% |
| …am resymau meddygol | 83% | 16% | 1% | <1% |
| …i wneud ymarfer corff | 37% | 15% | 15% | 32% |
| …i gwrdd teulu a ffrindiau | 64% | 28% | 5% | 2% |

Wythnos 12 (22ain i'r 28ain o Fehefin 2020)

# Am beth ydym ni’n ei boeni?

## Dros yr wythnos ddiwethaf, faint mae'r canlynol wedi bod yn eich poeni?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Mynd yn ddifrifol wael gyda coronafeirws | 37% | 44% | 19% |
| Colli rhywun agos atoch o’r feirws | 23% | 32% | 46% |
| Iechyd a lles eich plant*#~ | 25% | 33% | 43% |
| Addysg eich plant*#~ | 24% | 24% | 52% |
| Eich priodas neu eich perthynas gyda’ch partner#~ | 77% | 14% | 10% |
| Colli eich swydd neu methu dod o hyd i swydd #~ | 64% | 18% | 18% |
| Gwaith, er fod eich swydd yn saff#~ | 58% | 25% | 17% |
| Eich cyllid | 62% | 22% | 16% |

* Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant ar yr aelwyd; ~ Data heb ei bwysoli; #yn eithro rhai a ymatebodd yn ' amherthnasol '

# Cyllid

## O ganlyniad i coronafeirws, a ydych chi neu unrhyw un ar eich aelwyd chi...

| | Do |
|---|---|
| Wedi eich hatal o'r gwaith ar gyflog is neu ddim o gwbl e.e. ar gennad (furlough) | 28% |
| Incwm wedi leihau'n sylweddol drwy gael llai o waith neu lai o oriau | 15% |
| Colli swydd parhaol | 4% |

## O ganlyniad i gyfyngiadau coronafeirws, a fyddech yn dweud fod eich sefyllfa ariannol bresennol yn?

| | |
|---|---|
| Waeth | 23% |
| Yr un fath | 63% |
| Yn well | 14% |

Wythnos 12 (22ain i'r 28ain o Fehefin 2020)

# Sut ydych yn teimlo?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Teimlo'n iach** | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
| | **Pa mor iach ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Yn afiach iawn; 10 = Yn hynod o iachus | 5% | 29% | 66% |
| **Teimlo'n hapus** | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
| | **Pa mor hapus ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn hapus o gwbl; 10 = Yn hynod o hapus | 4% | 25% | 71% |
| **Teimlo'n bryderus** | | 0-3 | 4-6 | 7-10 |
| | **Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?**<br>0 = Ddim yn bryderus o gwbl; 10 = Yn hynod o bryderus | 54% | 29% | 18% |
| **Ymarfer corff** | | 0 days | 1-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
| | **Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi wneud o leiaf 30 munud o ymarfer corff (digon i'ch gwneud allan o wynt)** | 24% | 36% | 40% |

# Sut ydych yn teimlo?

## Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 65% | 59% |
| Weithiau | 25% | 29% |
| Yn aml | 8% | 8% |
| Bob amser | 2% | 4% |

## Dros yr wythnos olaf, pa mor aml mae'r canlynol wedi eich poeni?

Eich iechyd a'ch lles

| | |
|---|---|
| Ddim o gwbl | 54% |
| Ychydig | 32% |
| Llawer | 13% |

Wythnos 12 (22ain i'r 28ain o Fehefin 2020)

# Dadansoddiadau demograffig

| | |
|---|---|
| **Yr arolwg** | Arolwg ffôn cenedlaethol a gynhaliwyd gydag oedolion (>18 oed) sy'n breswylwyr ar hyn o bryd yng Nghymru. |
| | Dechreuwyd gasglu data ar ddechrau **Ebrill 2020** ac mae'n parhau. |
| | Hyd yn hyn, mae dros 6000 o bobl wedi dweud wrthym sut mae'r feirws a'r clo mawr wedi effeithio arnynt. |
| **Ein dadansoddiadau** | Mae'r dadansoddiadau hyn yn ystyried sut y gall y profiadau o coronafeirws fod yn wahanol ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas. Nid yw rhai mesurau demograffig yn cael eu dadansoddi yma oherwydd maint bach y sampl (e.e y rhai nad ydynt yn cael eu hadnabod fel gwryw neu fenyw, neu oherwydd eu bod yn cael eu harchwilio mewn adroddiadau â thema penodol (e.e ethnigrwydd). |
| | Defnyddiwyd swyddogaeth **model llinol cyffredinoledig** i archwilio perthnasoedd annibynnol rhwng deilliannau o ddiddordeb a newidynnau demograffig (oedran, rhyw, amddifadedd.) |
| | Cywirwyd dadansoddiadau hefyd am amser (h.y. wythnos yr arolwg). Fodd bynnag, nid yw tueddiadau dros amser yn ganolbwynt i'r adroddiad yma , ac fe'u adroddwyd mewn mannau eraill. |
| **Canfyddiadau** | Cyflwynir gwahaniaethau allweddol ar draws 5 cwintel amddifadedd (1=mwyaf difrentiedig; 5=lleiaf difrentiedig /mwyaf cefnog) ac ar gyfer menywod vs dynion a'r ieuengaf (18-29) vs yr hynaf (70+) yn ôl oedran. Lle ceir gwahaniaethau arwyddocaol pwysig ar draws categorïau oedran eraill, cyflwynir rhain mewn graffiau.<br><br>Onid nodir, mae gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol ar $p<.05$. |

# Crynodeb o'r canfyddiadau demograffig

## Yn ystod y clo mawr yng Nghymru…

Mae **merched** yn fwy tebygol o:

| | Merched | Dynion |
|---|---|---|
| Boeni'n fawr am gael coronafeirws | 22% | 16% |
| Feddwl y dylid gwneud i bobl wisgo gorchuddion gwyneb mewn mannau cyhoeddus | 57% | 52% |
| Yn golchi dwylo'n gyson (>10 gwaith/diwrnod) | 58% | 42% |

## Mae rheiny rhwng 18-29 oed yn fwy tebygol o:

| | 18-29 oed | 70+ oed |
|---|---|---|
| Ddweud ybyddai'n well ganddynt i ysgolion aros ar gau hyd nes nad oes siawns o ddal y feirws. | 70% | 58% |
| Bryderu am blant yn mynd yn sâl o ddal coronafeirws yn yr ysgol. | 59% | 41% |
| Bryderu am blant yn dal coronafeirws mewn ysgolion ac yn lledaenu hyn yn ymysg eu teuluoedd a'u cymunedau* | 62% | 46% |

## Tra fod yr rhai 70+ oed yn fwy tebygol o:

**Fod yn bryderus iawn am ddal**

21% (18-29 oed; 6%)


## Mae pobl mewn amddifadedd yn fwy tebygol o:

| | Y pumed mwyaf difrentiedig o'r boblogaeth | Pumed rhan lleiaf difrentiedig o'r boblogaeth |
|---|---|---|
| Fod yn bryderus iawn am gael coronafeirws | 22% | 17% |
| Fod eisiau aros o dan gyfyngiadau hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal y feirws | 56% | 38% |
| Fod eisiau i ysgolion aros ar gau hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal y feirws | 70% | 50% |
| Bryderu am blant yn mynd yn sâl o ddal coronafeirws yn yr ysgol | 53% | 30% |
| Bryderu am blant yn dal coronafeirws mewn ysgolion ac yn lledaenu hyn ymysg eu teuluoedd a'u cymunedau | 52% | 38% |

*Gwahaniaeth heb fod yn ystadegol arwyddocaol.

# Coronafeirws a'r cyfyngiadau


Cyfran wedi'i haddasu y byddai'n well ganddynt aros o dan gyfyngiadau hyd nes nad oes siawns iddynt ddal y feirws




Data o wythnosau 6-12


# Ymddygiadau amddiffynnol

## Cyfran wedi'i haddasu yn bryderus iawn am gael coronafeirws[#˜]





Mae merched yn fwy pryderus na dynion am gael coronafeirws ac maent yn dangos mwy o gefnogaeth i ddefnyddio gorchuddion wyneb ac yn golchi eu dwylo'n fwy cyson.

## Cyfran wedi'i haddasu y dylid gwneud i bobl wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus*





## Cyfran wedi'i haddasu sy'n golchi dwylo neu'n defnyddio diheintydd llaw yn aml (>10 gwaith/dydd)[+]




[#]Ymhlith y rhai sy'n credu nad ydynt wedi cael y feirws yn barod; [˜]Data o wythnos 2-12; *o wythnos 6-12; [+]Data o wythnos 11-12.

# Ysgolion a phryder am blant


Cyfran wedi'i haddasu a fyddai'n ffafrio ysgolion i aros ar gau hyd nes nad oes unrhyw siawns o ddal y feirws





Data o wythnos 6-12

# Ysgolion a phryder am blant

Cyfran wedi'i haddasu'n bryderus iawn neu'n eithriadol o bryderus am blant yn mynd yn sâl o ddal coronafeirws yn yr ysgolion⁺




Cyfran wedi'i haddasu'n bryderus iawn neu'n eithriadol o bryderus am blant yn dal coronafeirws mewn ysgolion ac yn ei ledaenu i'w teuluoedd a'u cymunedau⁺





Mae ymatebwyr sy'n byw mewn ardaloedd mwyaf difrentiedig Cymru'n fwy pryderus am blant yn dal ac yn lledaenu coronafeirws yn yr ysgol na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwyaf cefnog.

⁺Data o wythnosau 11-12.


GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Ysgolion a phryder am blant

Cyfran wedi'i haddasu'n, bryderus iawn neu'n eithriadol o bryderus am addysg plant yn cael ei niweidio gan ysgolion yn dychwelyd i'r arfer yn rhy araf⁺




Cyfran wedi'i haddasu'n bryderus iawn neu'n eithriadol o bryderus ynghylch niwed i ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant drwy ysgolion yn dychwelyd i'r arfer yn rhy araf ⁺





Mae pryderon am addysg plant a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol yn debyg ar draws pob lefel o amddifadedd.

⁺Data o wythnosau 11-12.

# Cyllid

Cyfran wedi'i haddasu yn adrodd ar eu sefyllfa ariannol bresennol ei fod yn waeth na'r arfer oherwydd cyfyngiadau coronafeirws+




Oedolion ifanc sydd fwyaf tebygol o adrodd fod eu sefyllfa ariannol bresennol yn waeth na'r arfer oherwydd cyfyngiadau coronafeirws.

+Data o wythnosau 11-12.

# Ymholiadau

**Dadansoddydd Demograffig**

Katie Hardcastle

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Cymorth Dadansoddol**

Dr Freya Glendinning

## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol,
Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ

